

Y Weithdrefn Gwyno

Ein dymuniad yw y byddwch yn cael ymweliad cynhyrchiol a phleserus ag adeilad a gwefan yr Archifau Gwladol. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu i chi wasanaeth o'r safon uchaf posibl o fewn ein gallu. Os bydd pethau yn mynd o chwith, hoffem eich helpu'n syth bin, felly gofynnwn i chi ddweud wrthym pan fydd problem yn codi.

Mae ein [Polisi tynnu o'r wefan](#) yn nodi'r amgylchiadau lle y bydd yr Archifau Gwladol yn tynnu deunyddiau oddi ar eu gwefannau.

Sut i wneud cwyn

Os ydych am gwyno am unrhyw un o'n gwasanaethau, siaradwch ag aelod o'r staff a fydd yn ceisio datrys pethau i chi'n uniongyrchol, neu'n eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun a all helpu.

Neu, gallwch gwblhau ein [Ffurflen Rhoi'ch Barn](#) neu ein e-bostio ar yourviews@nationalarchives.gsi.gov.uk, neu gallwch ein ffonio ar +44 (0) 208 392 5363 a siarad â'n Rheolwr Cwynion.

Gallwch hefyd ysgrifennu at ein Rheolwr Cwynion yn y cyfeiriad isod:

The Quality Manager
The National Archives
Kew, Richmond
Surrey TW9 4DU

Mae'r polisi isod yn darparu manylion llawn ynglŷn â sut rydym yn ymdrin â sylwadau a chwynion. [Polisi ymdrin â sylwadau a chwynion](#) (PDF, 0.11Mb)

Adolygiad allanol

Os, yn dilyn pob cam o'r system gwynion fewnol, rydych chi'n dal i fod yn anfodlon, gallwch wneud cais i'n hadolygydd cwynion annibynnol. Mae'r gwasanaeth adolygu cwynion yn gwbl annibynnol o'r Archifau Cenedlaethol a bydd yn sicrhau tegwch a didueddrwydd wrth ymchwilio i'ch cwyn.

Dylid nodi na all yr adolygydd adolygu achosion sy'n ymwneud â cheisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data.

ch&i associates ltd
64 Plumstead Road
Norwich
NR1 4JU
Rhif ffôn: +44 (0) 330 133 1492
E-bost: enquiries@chi-assoc.com
<http://www.chi-assoc.com/>

Os yw'ch cwyn am gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac rydych yn dal yn anfodlon ar ôl dilyn holl gamau'r system gwyno fewnol, dylech gysylltu â:

The Information Commissioner

Wycliff House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire, SK9 5AF

Rhif ffôn: +44 (0) 1625 545745

ico.org.uk

Adolygiad gan yr Ombwdsmon

Os byddwch yn dal yn anfodlon â chanlyniad adolygiad yr ACA, cewch ofyn i'ch Aelod Seneddol roi'ch cwyn gerbron yr Ombwdsmon Seneddol sydd yn un o swyddogion Tŷ'r Cyffredin. Mae'r Ombwdsmon yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn oddi wrth:

The Parliamentary and Health Service Ombudsman

Millbank Tower

Millbank

Llundain SW1P 4QP

Rhif ffôn: +44 (0) 845 015 4033

E-bost: phso.enquiries@ombudsman.org.uk

ombudsman.org.uk

Nid yw'r ddarpariaeth o broses annibynnol i adolygu cwynion yn effeithio ar eich hawl i geisio cael yr Ombwdsmon i adolygu'ch cwyn ar unrhyw adeg.

Gwybodaeth bellach

Asiantaeth Weithredol yw'r Archifau Gwladol, sy'n gweithredu fel adran ar wahân o dan y Mae'r Adran dros Ddigidol, Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Y Prif Weithredwr yw:

Jeff James

The National Archives

Kew, Richmond

Surrey, TW9 4DU

Y gweinidog sy'n gyfrifol am yr Archifau Gwladol yw:

Parliamentary Under Secretary of State for Arts and Heritage

100 Parliament Street

Llundain, SW1A 2BQ